PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

**Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol 2023/24**

Paratoir y datganiad polisi cyflogau hwn ar sail argymhellion Llywodraeth Cymru am dryloywder taliadau staff uwch yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Diffiniadau**

**Uwch Swyddi:** i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol yw'r rhain.

**Gweithwyr ar y cyflog isaf:** i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi Pwynt 3, Gradd 1 ar Raddfa Dâl HERA yw'r rhain.

Mabwysiadwyd y diffiniadau hyn oherwydd eu bod yn adlewyrchiad cyflawn o hyd a lled poblogaeth gweithwyr y Brifysgol.

Ar ben hyn, gan fod y Brifysgol wedi'i hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw, nid oes yr un o'r gweithwyr yn cael cyflog is na'r hyn a ddiffinnir ar gyfer Gradd 3, Pwynt 6, sef £12.00 yr awr ar 31 Gorffennaf 2024.

**Y gymhareb**
Ar sail y diffiniadau hyn, y gymhareb rhwng cyfartaledd cyflogau'r swyddi uwch a'r swyddi cyflog isaf yw **1:5.51**. Mae hyn yn ostyngiad o'r gymhareb y llynedd sef 1:6:32.

**Tystiolaeth o fforddiadwyedd a gwerth am arian:**
Nifer yr uwch swyddi sydd â chyflog dros £100,000 - mae hyn yn seiliedig ar dâl sylfaenol yn ogystal ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2024:

| | Nifer y swyddi uwch |
|---|---|
| £100,000-£104,999 | 0 |
| £105,000-£109,999 | 0 |
| £110,000-£114,999 | 2 |
| £115,000-£119,999 | 1 |
| £120,000-£124,999 | 0 |
| £125,000-£129,999 | 2 |
| £130,000-£134,999 | 1 |
| £230,000-£234999 | 1 |

Cyfanswm nifer yr uwch swyddi sydd â phecyn taliadau dros £100,000 yw 7 swydd, sy'n ostyngiad o gyfanswm y llynedd sef 8 swydd. Mae cyfanswm cyflogau, gan gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol, wedi cynyddu 5%, sy'n golygu na chynhwysir yr un ohonynt yn y dosbarth is sef £100,000 i £104,999.

**Rheoli Perfformiad**
Agwedd y corff tuag at reoli doniau mewnol: mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad. Ar ben hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth o rwydweithiau a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfaol.

**Cyflog cysylltiedig â pherfformiad**

Mae gan y Brifysgol gynllun cyflog cysylltiedig â pherfformiad, Gwobr Cyfraniad Unigol (ICA) ar gyfer Graddau 1-9 a Gwobr Cyfraniad Unigol (Cynyddran Symud Ymlaen) ar gyfer Gradd 10. Noder nad yw'r cynllun wedi rhedeg yn ystod y cyfnod hwn.

**Cefnogaeth i staff**

Y prif ddull o ddarparu **cefnogaeth i staff ar gyflogau is:** dechreuodd y Brifysgol dalu'r Gwir Gyflog Byw ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018. Dylai pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth fo'u cyflog, drafod eu hanghenion datblygu a chymorth yn rhan o'r broses Cynllun Cyfraniad Effeithiol. Mae'r trafodaethau hyn yn llywio cynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

**Cyfraddau tâl**

Y **pwynt cyflog uchaf** yw Pwynt 9 ar y raddfa Gradd 10, (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/) sy'n cyfateb i £110,844 (ar 31 Gorffennaf 2024). Mae rhai uwch swyddi'n derbyn cyflogau ar gyfradd yr unigolyn sy'n fwy na hyn; caiff y cyflogau hynny eu pennu'n seiliedig ar ddata meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch. Mae Pwyllgor Taliadau'r Brifysgol yn cael adroddiad blynyddol am bob penodiad a wneir ar y raddfa Gradd 10 neu gyflogau ar raddfa unigolyn.

Y **pwynt cyflog isaf** yw Pwynt 3 ar y Golofn Dâl Sengl (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/), sy'n cyfateb i £20,948 (ar 31 Gorffennaf 2024). Ond, mewn gwirionedd mae'r unigolion ar y pwynt hwn ar y golofn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw sydd mewn grym ar y pryd, ac sydd yn awr yn £22,776.

**Polisïau diswyddo**

Mae'r Brifysgol yn ceisio lliniaru colli swyddi'n orfodol, yn y gorffennol, mae wedi gweithredu Cynllun Colli Swydd yn Wirfoddol sydd ar gael i staff sydd mewn perygl o golli eu swyddi yn rhan o ailstrwythuro.

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arferion cyfrifo presennol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol llawn ar dâl yn rhan o'i phrosesau adrodd blynyddol.

**Casgliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad hwn i'w anfon ymlaen i'r Cyngor.